Iwan Trefor Jones – Cyfarwyddwr Corfforaethol Cyngor Gwynedd

Beth rydych yn ei weld yn digwydd i Bwll Nofio yma ym Mlaenau Ffestiniog gyda`r Ysgol wedi cymryd drosodd y ganolfan uchaf?

James Lay, Clwb Ieuenctid

"Bydd y Cyngor yn parhau i reoli a rhedeg y Pwll Nofio ac felly fydd dim newid yn y drefn."

Why can't I get a house from the Council until I am 18 years old?

Ben Evans – Gwynedd

"Yn ôl a ddeallaf mae anhawster cyfreithiol o ran cynnig tenantiaeth i berson dan 18. Mae hyn wedi bod yn broblem yn y gorffennol ac rydym wedi gorfod defnyddio trwydded neu drefniant arall (ddim yn denantiaid llawn, ond yn cael trwydded arbennig i fod yn denant dros dro)."

Oes yna gynllunio i adeiladu fflatiau ar gyfer pobl ifanc sengl yng Ngwynedd?

Catrin Vaughan Roberts - Gisda

"Nid oes unrhyw gynllun i adeiladu fflatiau i bobl Ifanc ar hyn o bryd. Rydym wastad yn cadw golwg am adnoddau addas ond hyd y gwn i toes dim cynllun i adeiladu o'r newydd ar gyfer pobl ifanc sengl. Yn sgil newidiadau i Budd-Tai mae'n bosibl y byddwn yn gorfod chwilio am fath arbennig o eiddo i'r dyfodol yn arbennig ar gyfer pobl iau na 18 oed . Rydym yn ddiweddar wedi bod yn trafod gyda gwasanaeth plant ynglŷn a gwella darpariaeth ar gyfer ol-ofal ac rydym hefyd wedi bod yn trafod protocol ar gyfer pobl ifanc rhwng 16-18. Rydym hefyd ar fin derbyn fflatiau newydd o dan gynllun PSL ym Mangor mae rhain ar gyfer pobl sengl."

Yn sgil toriadau sydd yn digwydd a oes cyfleodd yn mynd i fod yn lleol i bobl ifanc?

Ffion Stephenson, Clwb Ieuenctid

“Nid yw’r Cyngor ar hyn o bryd yn bwriadu cau unrhyw Glwb Ieuenctid yng Ngwynedd, ac felly bydd y cyfleoedd yna yn cario mlaen. Mae mwy o gyfleodd i bobl Ifanc weithio tuag at achrediadau ee Gwobr Dug Caeredin, Prifysgol y Plant.”